

## Y Pwyllgor Cyllid

---

Lleoliad:  
**Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd**

---

Dyddiad:  
**Dydd Mercher, 4 Gorffennaf 2012**

---

Amser:  
**08:45**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gareth Price**  
Clerc y Pwyllgor  
02920898409  
[FinanceCommittee@wales.gov.uk](mailto:FinanceCommittee@wales.gov.uk)

---

## Agenda

---

**Sesiwn friffio breifat (8:45 – 9:00)**

**1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (9:00 – 9:05)**

**2. Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012–2013 (Haf 2012) (9:05 – 10:00)** (Tudalennau 1 – 89)

FIN(4) 11–12 – Papur 1 – Cyllideb Atodol ar gyfer 2012–2013 – Nodyn esboniadol  
FIN(4) 11–12 – Papur 2 – Cynnig Cyllideb Atodol 2012–2013

Jane Hutt, Y Gweinidog Cyllid  
Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol  
Margaret Davies, Pennaeth Polisi Cyllidebu  
Matthew Denham–Jones, Pennaeth Rheoli a Chofnodi Cyllidebau

**3. Papurau i'w nodi** (Tudalennau 90 – 131)

FIN(4) 11–12 – Papur 3 – Ymgynghoriad ar bwerau benthyca newydd yr Alban  
FIN(4) 11–12 – Papur 4 – Gohebiaeth gan Gyfarwyddwyr Cyllid Sefydliad Siartredig  
Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yr Alban – Cyllid Datganoledig: Pwerau Benthyg a  
Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf  
FIN(4) 11–12 – Papur 5 – Ymgynghoriad ar Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau

Cymdeithasol - Cyllideb Atodol ar gyfer 2011-2012 (Gwanwyn 2012)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2012.

**4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

Eitem 5.

**5. Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013 (Haf 2012) - Trafod y dystiolaeth (10:00 - 10:30)**

**6. Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014 - Opsiynau ar gyfer penodi ymgynghorydd arbenigol (10:30 - 11:00) (Tudalennau 132 - 143)**



Llywodraeth Cymru

## **Cyllideb Atodol 2012-2013**

Nodyn Esboniadol



Mehefin 2012

ISBN 978 0 7504 7576 1  
© Hawlfraint y Goron 2012  
WG15717

## Cynnwys

---

<b>1. Cyflwyniad</b> .....	4
<b>2. Newidiadau Allweddol yn y Gyllideb Atodol</b> .....	10
<b>3. Dyraniadau o'r Cronfeydd Wrth Gefn</b> .....	12
<b>4. Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant</b> .....	16
<b>5. Llywodraeth Leol a Chymunedau</b> .....	21
<b>6. Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth</b> .....	26
<b>7. Addysg a Sgiliau</b> .....	32
<b>8. Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy</b> .....	36
<b>9. Tai, Adfywio a Threftadaeth</b> .....	39
<b>10. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu</b> .....	42
<b>Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllideb Bloc Cymru a'r Dyraniadau</b> <b>Adnoddau yng Nghynnig y Gyllideb</b> .....	45
<b>Atodiad 2 – Cysoni Strwythurau'r Gyllideb Drafnidiaeth o fewn</b> <b>MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau</b> .....	48
<b>Atodiad 3 – Dyraniadau Rheolaidd o'r Cronfeydd wrth Gefn</b> ...	50
<b>Atodiad 4 – Geirfa</b> .....	51

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am gynnwys y ddogfen hon i:

[Budget and Strategic Planning@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Budget_and_Strategic_Planning@cymru.gsi.gov.uk)

## 1. Cyflwyniad

---

- 1.1** Heddiw, gosododd Llywodraeth Cymru y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2012-13 yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r Gyllideb Atodol hon yn cynnig nifer o newidiadau i'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2012-13 fel y'i cymeradwywyd gan y Cynulliad ar 6 Rhagfyr 2011.
- 1.2** Yn bennaf, mae'r Gyllideb Atodol hon yn adlewyrchu addasiadau i gyllidebau yn unol â chyhoeddiadau blaenorol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn, gan gynnwys y Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog. Ym mis Mai, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi. Mae'r cynllun yn nodi ei blaenoriaethau buddsoddi lefel uchel. Mae'r Gyllideb Atodol hon yn gwneud addasiadau ar gyfer y pecyn buddsoddi cyfalaf a gyhoeddwyd ym mis Mai yn unol â'r blaenoriaethau hyn. Mae hefyd yn adlewyrchu aildrefnu'r blaenoriaethau o fewn portffolios a nifer fechan o drosglwyddiadau rhwng prif grwpiau gwariant. Mae addasiadau hefyd wedi cael eu gwneud i Gyllideb DEL Cymru i adlewyrchu trosglwyddiadau a symiau canlyniadol a dderbyniwyd yn Natganiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn yr Hydref a'i Chyllideb ym mis Mawrth 2012.
- 1.3** Crynhoir y newidiadau a gynigir yn y Gyllideb Atodol hon yn y tablau canlynol gyda rhagor o fanylion ar gael yn y penodau Adrannol, sy'n manylu ar bob newid unigol dros £250k.
- 1.4** Mae'r ddogfen hon yn cefnogi'r Tablau Gweithredu manwl sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Newidiadau i Strwythurau'r Gyllideb

- 1.5** Mae strwythur Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cael ei ddiwygio fel rhan o'r Gyllideb Atodol hon er mwyn alinio cyllidebau'n agosach â blaenoriaethau'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. Mae Atodiad 2 yn rhoi cysoniad rhwng yr hen strwythur a'r strwythur newydd. Mae'r newidiadau hyn yn rhoi mwy o eglurder am ddiben y cyllidebau.
- 1.6** Hefyd, ceir nifer fechan o newidiadau i strwythurau'r gyllideb o fewn y prif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Ceir manylion y newidiadau hyn yn y bennod Adrannol.
- 1.7** Mae'r Gyllideb Atodol hon hefyd yn darparu ar gyfer ailstrwythuro cyllideb Camddefnyddio Sylweddau yn unol â newidiadau diweddar i'r portffolio Gweinidogol.

Tabl 1.1 – Dyraniadau DEL Cymru – Y Gyllideb Atodol

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd		
	Cyllideb <sup>1</sup> 2012-13	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig 2012-13
<b>Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)</b>			
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,287,226	56,014	6,343,240
Llywodraeth Leol a Chymunedau	5,104,513	-8,874	5,095,639
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	272,326	2,900	275,226
Addysg a Sgiliau	1,836,753	18,069	1,854,822
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	326,812	13,710	340,522
Tai, Adfywio a Threftadaeth	572,840	19,808	592,648
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	349,919	12,964	362,883
<b>Cyfanswm a Ddyranwyd i Adrannau Llywodraeth Cymru</b>	<b>14,750,389</b>	<b>114,591</b>	<b>14,864,980</b>
Adnodd	97,266	-15,361	81,905
Wrth Gefn	68,137	0	68,137
Cyfalaf Wrth Gefn	49,521	-44,099	5,422
Comisiwn y Cynulliad	47,227	0	47,227
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,740	0	4,740
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,034	0	4,034
Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	642	0	642
<b>Cyfanswm y Gwariant o fewn Cyllideb DEL Cymru</b>	<b>15,021,956</b>	<b>55,131</b>	<b>15,077,087</b>

<sup>1</sup> Ffigurau'r Gyllideb yw'r rhai yng Nghynnig Terfynol y Gyllideb a gymeradwywyd fis Rhagfyr 2011.



Tabl 1.2 – Newidiadau i DEL Adnoddau Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd			£000oedd		
	Adnodd Cyllidol			Adnodd Anghyllidol		
	Cyllideb <sup>2</sup> 2012-13	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig 2012-12	Cyllideb 2012-13	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig 2012-13
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	5,876,623	34,904	5,911,527	170,000	0	170,000
Llywodraeth Leol a Chymunedau	4,733,774	-16,584	4,717,190	109,098	0	109,098
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	181,319	-6,000	175,319	1,551	0	1,551
Addysg a Sgiliau	1,577,979	1,119	1,579,098	97,431	0	97,431
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	262,085	-30	262,055	3,098	0	3,098
Tai, Adfywio a Threftadaeth	274,605	48	274,653	3,677	0	3,677
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	305,455	12,964	318,419	16,000	0	16,000
<b>Cyfanswm y Dyranriad i Adrannau Llywodraeth Cymru</b>	<b>13,211,840</b>	<b>26,421</b>	<b>13,238,261</b>	<b>400,855</b>	<b>0</b>	<b>400,855</b>

<sup>2</sup> Ffigurau'r Gyllideb yw'r rhai yng Nghynnig Terfynol y Gyllideb a gymeradwywyd fis Rhagfyr 2011.

Tabl 1.3 – Newidiadau i DEL Cyfalaf Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd		
	Cyllideb <sup>3</sup> 2012-13	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig 2012-13
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	240,603	21,110	261,713
Llywodraeth Leol a Chymunedau	261,641	7,710	269,351
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	89,456	8,900	98,356
Addysg a Sgiliau	161,343	16,950	178,293
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	61,629	13,740	75,369
Tai, Adfywio a Threftadaeth	294,558	19,760	314,318
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	28,464	0	28,464
<b>Cyfanswm y Dyranriad i Adrannau Llywodraeth Cymru</b>	<b>1,137,694</b>	<b>88,170</b>	<b>1,225,864</b>

---

<sup>3</sup> Ffigurau'r Gyllideb yw'r rhai yng Nghynnig Terfynol y Gyllideb a gymeradwywyd fis Rhagfyr 2011.

**Tabl 1.4 – Cyllideb AME Cymru**

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd		
	Cyllideb <sup>4</sup> 2012-13	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig 2012-13
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	181,780	19,930	201,710
Llywodraeth Leol a Chymunedau	64,314	-12,929	51,385
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	41,402	0	41,402
Addysg a Sgiliau	150,525	27,784	178,309
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	0	0	0
Tai, Adfywio a Threftadaeth	-58,510	-7,000	-65,510
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	-1,837	-5	-1,842
<b>Cyfanswm Cyllideb AME Llywodraeth Cymru</b>	<b>377,674</b>	<b>27,780</b>	<b>405,454</b>

<sup>4</sup> Ffigurau'r Gyllideb yw'r rhai yng Nghynnig Terfynol y Gyllideb a gymeradwywyd fis Rhagfyr 2011.

## 2. Newidiadau Allweddol yn y Gyllideb Atodol<sup>5</sup>

---

Rhoddir crynodeb o'r newidiadau isod:

### 2.1 Addasiadau i linellau sylfaen adnoddau a chyfalaf:

#### DEL Adnoddau Cyllidol

- Bydd llinell sylfaen DEL Adnoddau Cyllidol yn cynyddu £11.1m, sy'n cynnwys:
  - trosglwyddiad net o £0.9m allan i Adrannau Llywodraeth y DU, gan gynnwys trosglwyddo £1.0m i mewn o'r Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ar gyfer y Systemau Trwyddedu Symud Anifeiliaid a throsglwyddo £1.9m allan i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS) ar gyfer Mapio Digidol Traws-Llywodraethol; a
  - chynnydd o £12m o symiau canlyniadol a dderbyniwyd yn Natganiad yr Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Tachwedd 2011.

#### DEL Cyfalaf

- Bydd y llinell sylfaen DEL Cyfalaf yn cynyddu £44.1m, sy'n cynnwys:
  - cynnydd o £38.7m o symiau canlyniadol a dderbyniwyd yn Natganiad yr Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Tachwedd 2011; a
  - chynnydd o £5.4m o swm canlyniadol a dderbyniwyd yng nghyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Mawrth 2012.

#### System Cyfnewid Cyllidebau

**2.2** Yn yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2011-12, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddwyn ymlaen bron £33.2m o'r DEL Adnoddau Ariannol o dan y System Cyfnewid Cyllidebau. O hyn, dyrannwyd £28.2m yng Nghyllideb Derfynol 2012-13. Mae £4.8m pellach yn cael ei ddyrannu fel rhan o'r Gyllideb Atodol hon. Rhoddir manylion pellach ym Mhennod 3.

---

<sup>5</sup> Mae'r ffigurau yn y bennod hon wedi'u talgrynnu i un pwynt degol.

**2.3** Caiff manylion yr union swm i'w ddwyn ymlaen o 2011-12 eu cadarnhau ar ôl cwblhau Cyfrifon Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-12. Caiff addasiadau i'n llinell sylfaen i adlewyrchu'r swm terfynol a ddygir ymlaen eu gwneud yn nes ymlaen yn y flwyddyn drwy broses Amcangyfrif Atodol y Deyrnas Unedig. Felly, nid yw'r Gyllideb Atodol hon yn adlewyrchu unrhyw addasiad i Floc Cymru o ran y System Cyfnewid Cyllidebau.

## **2.4 Symiau a drosglwyddwyd i'r Cronfeydd Wrth Gefn gan Adrannau Llywodraeth Cymru:**

### **DEL Adnoddau Cyllidol**

- £1.9m o Wasanaethau Canolog a Gweinyddu ar gyfer trosglwyddiad i Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau y Deyrnas Unedig mewn perthynas â Mapio Digidol Traws-Lywodraethol.

### 3. Dyraniadau o'r Cronfeydd Wrth Gefn<sup>6</sup>

---

**3.1** Mae'r Gyllideb Atodol yn gwneud sawl dyraniad o'r Cronfeydd Wrth Gefn, gyda sawl un yn unol â chyhoeddiadau blaenorol a wnaed gan Lywodraeth Cymru.

**3.2** Rhoddir crynodeb o'r prif ddyraniadau i Adrannau Llywodraeth Cymru isod:

#### DEL Adnoddau Cyllidol

- Dyrennir £12.2m o gyllid nad yw'n rheolaidd i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ar gyfer gwasanaethau orthopedeg fel rhan o'r pecyn £65m a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011;
- Dyrennir £10m i'r Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar gyfer prosiectau Rownd Chwech Buddsoddi i Arbed a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn;
- Fel rhan o'r £33.2m sydd wedi'i glustnodi at ddibenion penodol o dan y System Cyfnewid Cyllidebau, dyrennir £4.8m i'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau fel a ganlyn:
  - £0.8m i helpu i ddarparu Gwasanaethau Cynghori am Ddim; a
  - £4m fel rhan o Fenter Benthycu Llywodraeth Leol.
- Dyrennir £1m i'r Prif Grŵp Gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth mewn perthynas â throsglwyddiad Llywodraeth y DU o DEFRA ar gyfer y System Trwyddedu Symud Anifeiliaid; a
- Dyrennir £0.4m i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau mewn perthynas ag addasiad o ran y Grant Amddifadedd Disgyblion.

---

<sup>6</sup> Mae'r ffigurau yn y bennod hon wedi'u talgrynnu i un pwynt degol.

## **DEL Cyfalaf**

### **Cronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog**

**3.3** Mae'r Gyllideb Atodol yn darparu cyfanswm o £8.3m i brosiectau Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog Cam 1 fel y cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011 a £35.9m i brosiectau Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog Cam fel y cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011:

- **Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant**

Mae cyfanswm o £8.6m wedi'i ddyrannu i brosiectau Cam 2, gan gynnwys:

- £2.7m ar gyfer Canolfan Adnoddau Ambiwylans Wreccsam; a
- £5.9m ar gyfer datblygu gwasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd.

- **Llywodraeth Leol a Chymunedau**

Mae cyfanswm o £3.9m wedi'i ddyrannu i brosiectau Cam 1, gan gynnwys:

- £1.9m ar gyfer gwaith i wella'r A470 Maes yr Helmau i Cross Foxes; a
- £2m ar gyfer yr A470 Gelligemlyn.

Mae cyfanswm o £6.3m wedi'i ddyrannu i brosiectau Cam 2, gan gynnwys:

- £4m ar gyfer System Data Traffig Cenedlaethol Cymru;
- £0.4m ar gyfer Cynllun Gwella'r M4, Cyffordd 32 Coryton; a
- £1.9m ar gyfer storio halen ffordd.

- **Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**

Mae £2.9m o gyllid Cam 1 wedi'i ddyrannu ar gyfer darparu gwasanaethau ar-lein ar gyfer taliadau gwledig yng Nghymru.

- **Addysg a Sgiliau**

Mae cyfanswm o £9m wedi'i ddyrannu i brosiectau Cam 2, gan gynnwys:

- £2m ar gyfer prosiect 'Porth y Cymoedd' a fydd yn sefydlu ysgol newydd yn Nhondu ac yn rhesymoli'r ddarpariaeth addysg uwchradd yn yr ardal; a
- £7m ar gyfer rhesymoli'r ystâd ysgolion uwchradd yn Sir Gâr.

- **Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**

Mae £2m o gyllid Cam 2 wedi'i ddyrannu ar gyfer prosiectau rheoli llifogydd ac erydu arfordirol, i leihau'r risg i gartrefi a busnesau sy'n agored i niwed yn ardaloedd Bae Colwyn yn y Gogledd a'r Borth yn y Canolbarth.

- **Tai, Adfywio a Threftadaeth**

Mae £1.5m o gyllid Cam 1 wedi'i ddyrannu ar gyfer ailddatblygu Hen Neuadd y Dref Merthyr Tudful.

Mae £10m o gyllid Cam 2 wedi'i ddyrannu i'r prosiectau canlynol:

- £5m ar gyfer menter 'Troï Tai'n Gartrefi' er mwyn sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio; a
- £5m ar gyfer prosiect ailddatblygu tai Gorllewin y Rhyl.

### Buddsoddiad Cyfalaf Ychwanegol

**3.4** Ym mis Mai, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi, sy'n nodi ei blaenoriaethu buddsoddi lefel uchel. Ynghyd â hyn, ac yn dilyn trafodaethau gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig, fel rhan o'r Gytundeb Cyllideb 2012-13, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn buddsoddiad cyfalaf gwerth £44m yn unol â'r fframwaith buddsoddi:

- **Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Phlant**

Mae cyfanswm o £6.8m wedi'i ddyrannu i'r prosiectau canlynol:

- £2.5m ar gyfer ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd; a
- £4.3m ar gyfer Uned Iechyd Meddwl Acíwt Llandochau.

- **Llywodraeth Leol a Chymunedau**



Mae cyfanswm o £3.2m wedi'i ddyrannu i'r prosiectau canlynol:

- £0.5m tuag at safleoedd ar gyfer 'Siopau Un Stop' sy'n darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig;
- £1.5m ar gyfer llain galed M4, cyffyrdd 33-34; a
- £1.2m ar gyfer arwyddion ar yr M4, cyffordd 49 (Pont Abraham).

#### • **Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**

Mae cyfanswm o £6m wedi'i ddyrannu i'r prosiectau canlynol:

- £2.5m i Gronfa Twf Economaidd Cymru ar gyfer y gronfa garlam tymor byr i fusnesau sy'n rhoi mynediad ar unwaith i gyllid cyfalaf i'w fuddsoddi; a
- £3.5m i Barth Menter Glannau Dyfrdwy. Mae'n gynllun lliniaru llifogydd gyda chyfalaf sylweddol er mwyn galluogi datblygu 'Porth y Gogledd' ar Lannau'r Dyfrdwy. Mae'r 'porth' yn hanfodol i ddenu buddsoddiadau newydd i'r Parth Menter.

#### • **Addysg a Sgiliau**

Mae cyfanswm o £8m wedi'i ddyrannu i'r prosiectau canlynol:

- £5m ar gyfer cyflymu prosiectau trawsnewid Ysgolion yr 21ain Ganrif; a
- £3m ar gyfer Campws Ôl-16 Canol Dinas Caerdydd.

#### • **Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**

Mae cyfanswm o £9m wedi'i ddyrannu i'r prosiectau canlynol:

- £3m ar gyfer NEST, cynllun tloidi tanwydd Llywodraeth Cymru;
- £2m ar gyfer y cynllun newydd i gyd-fynd â'n cynllun effeithlonrwydd ynni, ARBED Cam 2; a
- £4m ar gyfer cynlluniau rheoli risg llifogydd a'r arfordir ym Mae Colwyn, Talgarth, Gilfach Kerry a'r Borth.

#### • **Tai, Adfywio a Threftadaeth**

Mae cyfanswm o £11m wedi'i ddyrannu i'r prosiectau canlynol:

- £6m ar gyfer Partneriaeth Tai Cymru Cam 2; a
- £5m ar gyfer menter 'Troi Tai'n Gartrefi' i sicrhau y caiff tai gwag eu defnyddio.

## 4. Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant

---

### Newidiadau Cyffredinol i Gyllidebau

**4.1** Mae'r DEL Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant wedi gweld cynnydd net o £56,014k, sy'n cynnwys cynnydd o £34,904k o ran adnoddau a chynnydd o £21,110k o ran cyfalaf.

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol

**4.2** Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol wedi cynyddu £19,930k i adlewyrchu'r rhagolygon o ran darpariaethau ac amhariadau yn y GIG.

### Newidiadau i Adnoddau

**4.3** Trosglwyddir £12,200k o gyllid nad yw'n rheolaidd o'r Cronfeydd Wrth Gefn i Gam Gweithredu 'Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd' i leihau amseroedd aros gwasanaethau orthopedeg. Mae hyn yn rhan o becyn o £65 miliwn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011.

**4.4** Effaith net y trosglwyddiadau gyda'r Prif Grwpiau Gwariant eraill yw cynnydd o £22,704k sy'n cynnwys yr addasiadau canlynol dros £250k:

### Cefnogi Cam Gweithredu Addysg a Hyfforddiant Gweithlu'r GIG

- Mae £2,051k wedi'i drosglwyddo i Gam Gweithredu 'Addysg Uwch' ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg Sgiliau ar gyfer taliadau i Brifysgol Caerdydd i gefnogi hyfforddiant meddygol a deintyddol.

### Cefnogi Cam Gweithredu Polisiâu a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl

- Mae cyfanswm o £2,688k wedi'i drosglwyddo allan, gan gynnwys:
  - £1,970k i Gam Gweithredu 'Tribiwnlysoedd' ym Mhrif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar gyfer Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl; a
  - £718k i Gam Gweithredu 'Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol' ym Mhrif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw. Mae angen y trosglwyddiad i sicrhau

cydymffurfiaeth â deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â Deddf Iechyd Meddwl 2007 a Threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid.

#### Cam Gweithredu 'Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau'

- £27,475k ar gyfer trosglwyddo'r Cam Gweithredu 'Camddefnyddio Sylweddau' i mewn o Brif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau i adlewyrchu newid yn y portffolios Gweinidogol.

**4.5** Hefyd, cafwyd sawl trosglwyddiad o fewn y Prif Grŵp Gwariant. Mae effaith net y trosglwyddiadau hyn yn niwtral. Isod, nodir effaith y trosglwyddiadau hyn ar Gamau Gweithredu unigol:

#### Cam Gweithredu 'Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd'

- Trosglwyddiad net o £11,153k allan, gan gynnwys y trosglwyddiadau hyn dros £250k:
  - £31,452k i Gam Gweithredu 'Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu' ar gyfer Gwasanaethau a Rennir;
  - £13,066k o Gam Gweithredu 'Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu' ar gyfer Contractau Gofal Sylfaenol;
  - £6,000k o Gam Gweithredu 'Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu' ar gyfer ariannu gwasanaethau ysbyty ac iechyd cymunedol; a
  - £1,074k o Gam Gweithredu 'Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach' ar gyfer y Grant Adnoddau Ymarferol Diabetes.

#### Cam Gweithredu 'Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu'

- Trosglwyddiad net o £12,417k i mewn gan gynnwys y trosglwyddiadau canlynol dros £250k:
  - £31,452k o Gam Gweithredu 'Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd' ar gyfer Gwasanaethau a Rennir;f
  - £13,066k i Gam Gweithredu 'Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd' ar gyfer Contractau Gofal Sylfaenol; a
  - £6,000k i Gam Gweithredu 'Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd' ar gyfer ariannu gwasanaethau ysbyty ac iechyd cymunedol.

### Cam Gweithredu 'Cefnogi Polisiâu a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl'

- Trosglwyddo cyfanswm o £190k allan. Dim trosglwyddiadau dros £250k.

### Cam Gweithredu 'Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus'

- Trosglwyddo cyfanswm o £8,939k i mewn gan gynnwys:
  - £629k o Gam Gweithredu 'Gofal Cymdeithasol Plant' ar gyfer Sgrinio Smotiau Gwaed Babanod Newydd-anedig; a
  - £8,310k o Gam Gweithredu 'Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach' ar gyfer cyllido Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### Cam Gweithredu 'Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach'

- Trosglwyddo cyfanswm o £9,384k allan gan gynnwys:
  - £8,310k i Gam Gweithredu 'Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus' ar gyfer ariannu Iechyd Cyhoeddus Cymru; a
  - £1,074k i Gam Gweithredu 'Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd' ar gyfer Grant Adnoddau Ymarferol Diabetes.

### Cam Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Plant

- Trosglwyddo £629k allan i'r Gam Gweithredu 'Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus' ar gyfer Sgrinio Smotiau Gwaed Babanod Newydd-anedig.

## **Newidiadau i Gyfalaf**

**4.6** Mae cyfanswm o £15,420k wedi'i drosglwyddo o'r Cronfeydd Wrth Gefn, gan gynnwys:

### Cam Gweithredu Cyflenwi'r GIG

- Trosglwyddo cyfanswm o £15,420k i mewn gan gynnwys:
  - £8,620k o Gyllid Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog ar gyfer y canlynol:
    - £2,720k ar gyfer Canolfan Adnoddau Ambiwlans Wrecsam; a
    - £5,900k ar gyfer datblygu gwasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd.
  - £6,800k fel rhan o'r pecyn buddsoddi cyfalaf i hybu twf a swyddi a gyhoeddwyd ym mis Mai, gan gynnwys:
    - £2,500k ar gyfer ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd; a
    - £4,300k ar gyfer Uned Iechyd Meddwl Acíwt Ysbyty Llandochoau.

- 4.7** Hefyd, trosglwyddwyd £5,690k i'r Gam Gweithredu 'Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau' o Gam Gweithredu 'Camddefnyddio Sylweddau' ym Mhrif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau i adlewyrchu newid yn y portffolios Gweinidogol.

**Tabl 4.1 – Dyraniadau SPA Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant**

DEL	£000oedd			£000oedd		
	Adnodd 2012-13			Cyfalaf 2012-13		
	Cyllideb <sup>7</sup>	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig	Cyllideb	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig
Cyflenwi'r GIG	5,491,962	13,464	5,505,426	230,279	15,420	245,699
Cyllidebau Iechyd Canolog	205,374	22,546	227,920	0	5,690	5,690
Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau	157,548	-477	157,071	5,039	0	5,039
Gwasanaethau Cymdeithasol	182,104	-629	181,475	5,285	0	5,285
CAFCASS Cymru	9,635	0	9,635	0	0	0
<b>Cyfanswm DEL</b>	<b>6,046,623</b>	<b>34,904</b>	<b>6,081,527</b>	<b>240,603</b>	<b>21,110</b>	<b>261,713</b>
<b>AME</b>						
Amhariadau'r GIG	181,780	19,930	201,710	0	0	0
<b>Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)</b>	<b>6,228,403</b>	<b>54,834</b>	<b>6,283,237</b>	<b>240,603</b>	<b>21,110</b>	<b>261,713</b>

<sup>7</sup> Ffigurau'r Gyllideb yw'r rhai yng Nghynnig Terfynol y Gyllideb a gymeradwywyd fis Rhagfyr 2011.

## 5. Llywodraeth Leol a Chymunedau

---

### Newidiadau Cyffredinol i Gyllidebau

**5.1** Cafwyd lleihad net o £8,874k yn y DEL Llywodraeth Leol a Chymunedau, gan gynnwys lleihad o £16,584k o ran adnoddau a chynnydd o £7,710k o ran cyfalaf.

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol

**5.2** Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol wedi lleihau £12,929k i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf o ran gwella a chynnal a chadw'r rhwydwaith cefnffyrdd.

### Newidiadau Adnoddau

**5.3** Mae cyfanswm o £4,754k wedi'i drosglwyddo o'r Cronfeydd Wrth Gefn gan gynnwys:

- £754k i Gam Gweithredu'r 'Trydydd Sector' i helpu i ddarparu Gwasanaethau Cynghori Am Ddim; a
- £4,000k i Gam Gweithredu 'Teithio Cynaliadwy' fel rhan o Fenter Benthyca Llywodraeth Leol.

**5.4** Effaith net trosglwyddiadau gyda Phrif Grwpiau Gwariant eraill yw lleihad o £21,338k, sy'n cynnwys yr addasiadau canlynol dros £250k:

### Cam Gweithredu Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol

- Lleihad net o £845k gan gynnwys y trosglwyddiadau canlynol:
  - £1,595k i Gam Gweithredu 'Gwybodaeth Ddaearyddol' ym Mhrif Grŵp Gwariant Gwasanaeth Canolog a Gweinyddiaeth i gefnogi'r Gwasanaethau Gwybodaeth Ddaearyddol i Gymru gyfan; a
  - £718k o Gam Gweithredu 'Cefnogi Polisiâu a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl' o fewn Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant i mewn i'r Grant Cymorth Refeniw. Mae angen y trosglwyddiad i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth

sylyfaenol mewn perthynas â Deddf Iechyd Meddwl 2007 a threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

#### Gam Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau

- Trosglwyddo £27,475k o'r Cam Gweithredu 'Camddefnyddio Sylweddau' i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant i adlewyrchu newid yn y portffolios Gweinidogol.

#### Cam Gweithredu Teithio Cynaliadwy

- Mae £7,000k wedi'i drosglwyddo i'r Cam Gweithredu 'Teithio Cynaliadwy' ym Mhrif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau fel rhan o drosgwyddiad cyllideb rhwng y Prif Grŵp Gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau a gytunwyd yn dilyn y Gyllideb Atodol ddiwethaf yn 2011-12.

**5.5** Hefyd, cafwyd sawl trosglwyddiad o fewn y Prif Grŵp Gwariant. Mae effaith net y trosglwyddiadau hyn yn niwtral. Isod, rhoddir manylion trosglwyddiadau penodol dros £250k:

#### Cam Gweithredu Cymunedau yn Gyntaf

- £250k o'r Cam Gweithredu 'Cynhwysiant Ariannol' mewn perthynas â Chronfa Datblygu Swyddfeydd Post i roi cefnogaeth bellach i swyddfeydd post i arallgyfeirio yn dilyn gwerthusiad o'r Gronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post.

#### Cam gweithredu Cynhwysiant Ariannol

Trosglwyddo cyfanswm o £900k allan, gan gynnwys:

- £250k i'r Cam Gweithredu 'Cymunedau yn Gyntaf' mewn perthynas â Chronfa Datblygu Swyddfeydd Post i roi cefnogaeth bellach i swyddfeydd post i arallgyfeirio yn dilyn gwerthusiad o'r Gronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post; a



- £650k i'r Cam Gweithredu 'Trydydd Sector' mewn perthynas â'r gefnogaeth i Undebau Credyd i ariannu'r cynnydd mewn costau prosiect yn sgil trefniadau cymorth busnes ychwanegol ar gyfer Undebau Credyd Cymru.

### Cam Gweithredu Y Trydydd Sector

- £650k o'r Cam Gweithredu Cynhwysiant Ariannol mewn perthynas â'r gefnogaeth i Undebau Credyd i ariannu'r cynnydd mewn costau prosiect yn sgil y trefniadau cymorth busnes ychwanegol i Undebau Credyd Cymru.

**5.6** Mae £1,675k wedi'i drosglwyddo o fewn y Prif Grŵp Gwariant, o'r Cam Gweithredu 'Gyrru Cydweithredu Gwell' i'r Cam Gweithredu 'Cefnogi Cydweithredu a Diwygio' (gynt y Cam Gweithredu 'Cefnogi Gwasanaethau Symlach a Mwy Effeithiol') fel rhan o'r broses o alinio Cyllidebau.

### **Newidiadau i Gyfalaf**

**5.7** Mae cyfanswm o £13,400k wedi'i drosglwyddo o'r Cronfeydd Wrth Gefn gan gynnwys:

### Cam Gweithredu Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd

- Trosglwyddo cyfanswm o £9,000k i mewn:
  - £6,300k o gyllid Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog ar gyfer y canlynol:
    - £4,000k ar gyfer System Data Traffig Cenedlaethol Cymru;
    - £400k ar gyfer Cynllun Gwella'r M4, Cyffordd 32, Coryton; a
    - £1,900k ar gyfer Storio Halen Ffordd.
  - £2,700k fel rhan o'r pecyn buddsoddiad cyfalaf a gyhoeddwyd ym mis Mai, gan gynnwys:
    - £1,500k ar gyfer llain galed yr M4, cyffyrdd 33-34; a
    - £1,200k ar gyfer arwyddion ar yr M4, cyffordd 49 (Pont Abraham).

### Cam Gweithredu Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd

- £3,900k o Gyllid a Gedwir yn Ganolog, gan gynnwys:
  - £1,900k ar gyfer Gwella'r A470 Maes yr Helmau i Cross Foxes; a
  - £2,000k ar gyfer yr A470 Gelligemlyn.

### Cam Gweithredu Cam-drin Domestig

- £500k ar gyfer y Cam Gweithredu 'Cam-drin Domestig' i fynd tuag at safleoedd ar gyfer 'Siopau Un Stop' sy'n darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig fel rhan o'r pecyn buddsoddiad cyfalaf a gyhoeddwyd ym mis Mai.

**5.8** Mae £5,690k wedi'i drosglwyddo o'r Cam Gweithredu 'Camddefnyddio Sylweddau' i'r Cam Gweithredu 'Cyflawni Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau' sydd o fewn Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, i adlewyrchu newid yn y portffolios Gweinidogol.

### **Newidiadau i strwythur cyllidebau**

**5.9** Ail-strwythurwyd cyllidebau o fewn y portffolio Trafnidiaeth er mwyn cyd-fynd yn well â blaenoriaethau'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a gwella tryloywder yr wybodaeth a ddarperir. Mae Atodiad 2 yn rhoi cysoniad rhwng y strwythurau newydd a'r hen strwythurau.

Tabl 5.1 – Dyranïadau SPA Llywodraeth Leol a Chymunedau

DEL	£000oedd			£000oedd		
	Adnodd 2012-13			Cyfalaf 2012-13		
	Cyllideb <sup>8</sup>	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig	Cyllideb	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig
Ariannu Llywodraeth Leol	4,240,114	-845	4,239,269	20,000	0	20,000
Cefnogi Cymunedau a Phobl	53,227	736	53,963	14,774	0	14,774
Cymunedau Diogelach	44,026	-27,475	16,551	8,529	-5,190	3,339
Gwella Gwasanaethau, Cydweithredu a Democratiaeth	41,896	0	41,896	0	0	0
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	15,190	0	15,190	0	0	0
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	2,722	0	2,722	0	0	0
Estyn	12,968	0	12,968	315	0	315
Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffydd a Chefnffyrdd	168,951	0	168,951	46,366	9,000	55,366
Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr	173,971	0	173,971	0	0	0
Buddsoddi mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd	0	0	0	92,794	3,900	96,694
Teithio Cynaliadwy	84,091	11,000	95,091	43,826	0	43,826
Gwella a Chynnal a Chadw'r Seilwaith Ffyrdd Lleol	0	0	0	28,137	0	28,137
Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd	5,716	0	5,716	6,900	0	6,900
<b>Cyfanswm DEL</b>	<b>4,842,872</b>	<b>-16,584</b>	<b>4,826,288</b>	<b>261,641</b>	<b>7,710</b>	<b>269,351</b>
<b>AME</b>						
Ariannu Llywodraeth Leol	20,717	0	20,717	0	0	0
Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol)	43,597	-12,929	30,668	0	0	0
<b>Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)</b>	<b>4,907,186</b>	<b>-29,513</b>	<b>4,877,673</b>	<b>261,641</b>	<b>7,710</b>	<b>269,351</b>

<sup>8</sup> Ffigurau'r Gyllideb yw'r rhai yng Nghymnig Terfynol y Gyllideb a gymeradwywyd fis Rhagfyr 2011.

## 6. Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

---

### Newidiadau Cyffredinol i Gyllidebau

- 6.1** Cafwyd cynnydd net o £2,900k yn y DEL Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, gan gynnwys lleihad o £6,000k o ran adnoddau a chynnydd o £8,900k o ran cyfalaf.

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol

- 6.2** Nid oes newidiadau i'r dyraniad Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

### Newidiadau i Adnoddau

- 6.3** Trosglwyddo £1,000k o DEFRA i Gam Gweithredu 'Diwallu Anghenion Cymunedau Gwledig a Bodloni'r Prawf Gwledig o ran Camau Llywodraeth Cymru' ar gyfer cyllid atodol i awdurdodau lleol i gyflawni blaenoriaethau gorfodi iechyd a lles anifeiliaid a chynnal y System Trwyddedu Symud Anifeiliaid.
- 6.4** Mae £7,000k wedi'i drosglwyddo i'r Cam Gweithredu 'Teithio Cynaliadwy' ym Mhrif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau fel rhan o drosglwyddiad cyllideb rhwng Prif Grŵp Gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a Phrif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau a gytunwyd ar ôl Cyllideb Atodol 2011-12.
- 6.5** Gwnaethpwyd sawl trosglwyddiad o fewn y Prif Grŵp Gwariant . Mae effaith net y trosglwyddiadau hyn yn niwtral. Gwnaed y rhain i gefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglenni'r strategaeth sectorau a'r strategaeth ganolog:

### Cam Gweithredu Sectorau

- Trosgrwyddiad net o £13,896k i mewn, gan gynnwys:
  - £5,000k o Gam Gweithredu 'Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod Cymru' i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Sector Bwyd a Ffermio newydd;
  - £7,626k o Gam Gweithredu 'Cynyddu'r Galw ymhlith Ymwelwyr a Gwaith Trawsnewid' i gefnogi cyflawni'r Sector Twristiaeth newydd;
  - £4,136k o Gam Gweithredu 'Datblygu Profiad yr Ymwelydd' i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Sector Twristiaeth newydd;
  - £2,005k o Gam Gweithredu 'Cyllid Rhanbarthol' i ryddhau cyllid i gefnogi'r naw Sector; a
  - £4,871k i'r Cam Gweithredu 'Arloesi' i alinio'r rhaglen 'Academia ar gyfer Busnes', a gweithgarwch cysylltiedig, â'r agenda Gwyddoniaeth ac Arloesi. Mae'r Maes Rhaglenni Gwariant 'Annog Arloesi' wedi cael ei ailenwi'n Gam Gweithredu 'Gwyddoniaeth ac Arloesi'.

### Cam Gweithredu Arloesi ('Annog Arloesi' gynt)

- £4,871k o Gam Gweithredu 'Sectorau' i alinio'r rhaglen 'Academia ar gyfer Busnes', a gweithgarwch cysylltiedig, â'r agenda Gwyddoniaeth ac Arloesi.

### Cam Gweithredu Cyllid Rhanbarthol

- £2,005k i Gam Gweithredu 'Sectorau' i ryddhau cyllid i gefnogi'r naw Sector.

### Cam Gweithredu Digwyddiadau Mawr

- £961k o Gam Gweithredu 'Cynyddu'r Galw ymhlith Ymwelwyr a Gwaith Trawsnewid' i alinio cyllidebau â gweithgarwch yn ymwneud â Digwyddiadau Mawr.

### Cam Gweithredu Rhaglenni Corfforaethol

- £468k o Gam Gweithredu 'Rhaglenni Strategol' i gefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglenni'r strategaeth ganolog.

### Cam Gweithredu Rhaglenni Strategol

- £468k i Gam Gweithredu 'Rhaglenni Corfforaethol' i gefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglenni'r strategaeth ganolog.

### Cam Gweithredu Sector Datblygu Marchnata Bwyd a Diod Cymru

- £5,000k i Gam Gweithredu 'Sectorau' i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Sector Bwyd a Ffermio newydd.

### Cam gweithredu Cynyddu'r Galw gan Ymwelwyr a Gwaith Trawsnewid

- Trosglwyddo cyfanswm o £8,587k allan, gan gynnwys:
  - £7,626k i Gam Gweithredu 'Sectorau' i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Sector Twristiaeth newydd; a
  - £961k i Gam Gweithredu 'Digwyddiadau Mawr' i alinio cyllidebau gyda gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Digwyddiadau Mawr.

### Cam Gweithredu Datblygu Profiad yr Ymwelydd

- £4,136k i Gam Gweithredu 'Sectorau' i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Sector Twristiaeth newydd.

**6.6** Mae'r Meysydd Rhaglenni Gwariant canlynol a'r Camau Gweithredu cysylltiedig wedi eu symud yn gyfan gwbl i Faes Rhaglenni Gwariant 'Rhaglenni Strategol a Chorfforaethol':

- £4,802k o Faes Rhaglenni Gwariant a Cham Gweithredu 'Cyllid Cymru' er mwyn alinio rheolaeth a gweinyddiaeth ganolog Cyllid Cymru CCC, is-gwmni sy'n eiddo yn gyfan gwbl i Lywodraeth Cymru; a
- £2,796k o Faes Rhaglenni Gwariant a Cham Gweithredu 'Marchnata' i adlewyrchu'r ffaith eu bod yn cefnogi mentrau canolog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a'u bod yn cael eu rheoli'n unol â chyflawni strategol a chorfforaethol.

## Newidiadau i Gyfalaf

**6.7** Mae cyfanswm o £8,900k wedi'i drosglwyddo o'r Cronfeydd Wrth Gefn, gan gynnwys:

### Cam Gweithredu Sectorau

- Trosglwyddo cyfanswm o £6,000k i mewn fel rhan o'r pecyn buddsoddiad cyfalaf a gyhoeddwyd ym mis Mai, gan gynnwys:
  - £2,500k i Gronfa Twf Economaidd Cymru ar gyfer y gronfa garlam tymor byr i fusnesau sy'n rhoi mynediad ar unwaith i gyllid cyfalaf i'w fuddsoddi; a
  - £3,500k i Barth Menter Glannau Dyfrdwy. Mae'n gynllun lliniaru llifogydd gyda chyfalaf sylweddol er mwyn galluogi datblygu 'Porth y Gogledd' ar Lannau'r Dyfrdwy. Mae'r 'porth' yn hanfodol i ddenu buddsoddiadau newydd i'r Parth Menter.

### Cyflawni'r Rhaglenni o fewn Cam Gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig

- £2,900k o Gyllid Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog ar gyfer darparu gwasanaethau ar-lein ar gyfer Taliadau Gwledig yng Nghymru.

**6.8** Hefyd, gwnaethpwyd sawl trosglwyddiad o fewn y Prif Grŵp Gwariant. Mae effaith net y trosglwyddiadau hyn yn niwtral. Gwnaed y rhain i gefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglenni'r strategaeth sectorau a'r strategaeth ganolog.

### Cam Gweithredu Sectorau

- Trosglwyddiad net o £2,840k i mewn, gan gynnwys:
  - £750k i'r Cam Gweithredu 'Arloesi' i alinio'r rhaglen 'Academia ar gyfer Busnes', a gweithgarwch cysylltiedig, â'r agenda Gwyddoniaeth ac Arloesi. Mae'r Maes Rhaglenni Gwariant 'Annog Arloesi' wedi cael ei ailenwi'n Gam Gweithredu 'Gwyddoniaeth ac Arloesi'.
  - £995k o Gam Gweithredu 'Cyllid Rhanbarthol' i ryddhau cyllid i gefnogi'r naw sector; a
  - £2,595k o Gam Gweithredu 'Datblygu Profiad yr Ymwelydd' i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Sector Twristiaeth newydd.

### Cam Gweithredu Arloesi ('Annog Arloesi' gynt)

- Trosglwyddo £750k i mewn o'r Cam Gweithredu 'Sectorau' i alinio rhaglen Academia ar gyfer Busnes, a gweithgarwch cysylltiedig, â'r agenda Gwyddoniaeth ac Arloesi.

### Cam gweithredu Cyllid Rhanbarthol

- £995k i'r Cam Gweithredu 'Sectorau' i ryddhau cyllid i gefnogi'r naw sector.

### Cam Gweithredu Datblygu Profiad yr Ymwelydd

- £2,595k i'r Cam Gweithredu 'Sectorau' i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r Sector Twristiaeth newydd.

**6.9** Mae Maes Rhaglenni Gwariant a Cham Gweithredu 'Cyllid Cymru', sef £1,500k, wedi ei symud yn gyfan gwbl i'r Maes Rhaglenni Gwariant 'Rhaglenni Strategol a Chorfforaethol' er mwyn alinio rheolaeth a gweinyddiaeth ganolog Cyllid Cymru CCC, is-gwmni sy'n eiddo yn gyfan gwbl i Lywodraeth Cymru.



Tabl 6.1 – Dyraniadau SPA Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

DEL	£000oedd			£000oedd		
	Adnodd 2012-13			Cyfalaf 2012-13		
	Cyllideb <sup>9</sup>	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig	Cyllideb	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig
Sectorau a Busnes	43,826	6,896	50,722	59,992	8,840	68,832
Gwyddoniaeth ac Arloesi	5,785	4,871	10,656	357	750	1,107
Ariannu Rhanbarthol	2,005	-2,005	0	995	-995	0
Cyllid Cymru	4,802	-4,802	0	1,500	-1,500	0
Digwyddiadau Mawr	3,870	961	4,831	0	0	0
Marchnata	2,796	-2,796	0	0	0	0
Seilwaith	22,415	0	22,415	11,031	0	11,031
Strategaeth a Rhaglenni Corfforaethol	4,880	7,598	12,478	417	1,500	1,917
WEFO	1,522	0	1,522	0	0	0
Materion Gwledig	78,246	-4,000	74,246	12,569	2,900	15,469
Twristiaeth	12,723	-12,723	0	2,595	-2,595	0
<b>Cyfanswm DEL</b>	<b>182,870</b>	<b>-6,000</b>	<b>176,870</b>	<b>89,456</b>	<b>8,900</b>	<b>98,356</b>
<b>AME</b>						
Seilwaith	41,402	0	41,402	0	0	0
<b>Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)</b>	<b>224,272</b>	<b>-6,000</b>	<b>218,272</b>	<b>89,456</b>	<b>8,900</b>	<b>98,356</b>

<sup>9</sup> Ffigurau'r Gyllideb yw'r rhai yng Nghynnig Terfynol y Gyllideb a gymeradwywyd fis Rhagfyr 2011.

## 7. Addysg a Sgiliau

---

### Newidiadau Cyffredinol i Gyllidebau

**7.1** Bu cynnydd net o £18,069k yn y DEL Addysg a Sgiliau, gan gynnwys cynnydd o £1,119k o ran adnoddau a chynnydd o £16,950k o ran cyfalaf.

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol

**7.2** Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol wedi cynyddu £27,784k, sy'n gynydd o £16,924k o ran cyfalaf a chynnydd o £10,860k o ran adnoddau, i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf o ran Benthyciadau Myfyrwyr.

### Newidiadau i Adnoddau

**7.3** Trosglwyddo £393k o'r Cronfeydd Wrth Gefn i'r Cam Gweithredu 'Grant Amddifadedd Disgyblion' mewn perthynas ag addasiad i'r Grant Amddifadedd Disgyblion.

**7.4** Effaith net y trosglwyddiadau gyda'r Prif Grwpiau Gwariant eraill yw cynnydd o £726k, sy'n cynnwys yr addasiadau canlynol:

### Cam Gweithredu Addysg Uwch

- £2,051k o'r Cam Gweithredu 'Cefnogi Addysg a Hyfforddiant Gweithlu'r GIG' ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant i wneud taliadau i Brifysgol Caerdydd i gefnogi hyfforddiant meddygol a deintyddol.

### Cam Gweithredu'r Iaith Gymraeg

- £1,325k i Brif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i dalu cyflogau a chostau cysylltiedig staff a drosglwyddodd i Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2012 yn dilyn diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, gan gynnwys yr addasiad canlynol dros £250k:
  - £1,273k i Gam Gweithredu 'Costau Staff'.

**7.5** Hefyd, gwnaethpwyd sawl trosglwyddiad o fewn y Prif Grŵp Gwariant. Mae effaith net y trosglwyddiadau hyn yn niwtral. Isod, ceir manylion trosglwyddiadau penodol dros £250k:

#### Camau Gweithredu'r Cwricwlwm

- £693k i'r Cam Gweithredu 'Cymorth Cyflawni' ar gyfer y Rhaglen Addysg Ryngwladol tuag at CILT, y Ganolfan Ieithoedd Genedlaethol.

#### Cam Gweithredu Cymwysterau

- £4,700k i'r Cam Gweithredu 'Addysg Ôl-16' ar gyfer darparu Bagloriaeth Cymru, Dysgu Seiliedig ar Waith.

#### Cam Gweithredu 'Addysg Ôl-16'

- Trosglwyddiad net o £4,630k i mewn, gan gynnwys y trosglwyddiad canlynol dros £250k:
  - £4,700k o Gam Gweithredu 'Cymwysterau' ar gyfer darparu Bagloriaeth Cymru, Dysgu Seiliedig ar Waith.

#### Cam Gweithredu'r Gymraeg mewn Addysg

- £4,035k o Gam Gweithredu 'Yr Iaith Gymraeg' ar gyfer grantiau Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd ac Athrawon Bro – grantiau a reolir bellach gan Uned y Gymraeg Mewn Addysg.

#### Cam Gweithredu'r Iaith Gymraeg

- Trosglwyddo cyfanswm o £4,089k allan, gan gynnwys y trosglwyddiad canlynol dros £250k:
  - £4,035k i Gam Gweithredu 'Y Gymraeg mewn Addysg' ar gyfer grantiau Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd ac Athrawon Bro - grantiau a reolir bellach gan Uned y Gymraeg Mewn Addysg.

### Cam Gweithredu Cymorth Cyflawni

- Trosglwyddo cyfanswm o £1,043k i mewn, gan gynnwys y trosglwyddiad canlynol dros £250k:
  - £693k o Gam Gweithredu'r 'Cwricwlwm' ar gyfer y Rhaglen Addysg Ryngwladol tuag at CILT, y Ganolfan Ieithoedd Genedlaethol.

### **Newidiadau i Gyfalaf**

**7.6** Trosglwyddo cyfanswm o £16,950k o'r Cronfeydd Wrth Gefn i Gam Gweithredu 'Darpariaeth Ystad a TG', gan gynnwys:

- £8,950k o Gyllid a Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog, sy'n cynnwys y canlynol:
  - £1,950k ar gyfer prosiect 'Porth y Cymoedd' a fydd yn sefydlu ysgol newydd yn Nhondu ac yn rhesymoli'r ddarpariaeth addysg uwchradd yn yr ardal; a
  - £7,000k ar gyfer rhesymoli'r ystad ysgolion uwchradd yn Sir Gâr.
- £8,000k fel rhan o'r pecyn buddsoddiad cyfalaf a gyhoeddwyd ym mis Mai, gan gynnwys:
  - £5,000k ar gyfer cyflymu prosiectau trawsnewid Ysgolion yr 21ain Ganrif; a
  - £3,000k ar gyfer Campws Ôl-16 Canol Dinas Caerdydd.

Tabl 7.1 – Dyraniadau SPA Addysg a Sgiliau

DEL	£000oedd			£000oedd		
	Adnodd 2012-13			Cyfalaf 2012-13		
	Cyllideb <sup>10</sup>	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig	Cyllideb	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig
Safonau Addysg a Hyfforddiant	1,165,476	1,485	1,166,961	161,243	17,050	178,293
Gweithlu Medrus	89,669	-20	89,649	0	0	0
Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb	390,762	-10	390,752	0	0	0
Yr Iaith Gymraeg	26,355	-1,379	24,976	100	-100	0
Cymorth Cyflawni	3,148	1,043	4,191	0	0	0
<b>Cyfanswm DEL</b>	<b>1,675,410</b>	<b>1,119</b>	<b>1,676,529</b>	<b>161,343</b>	<b>16,950</b>	<b>178,293</b>
<b>AME</b>						
Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb	-99,893	10,860	-89,033	250,418	16,924	267,342
<b>Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)</b>	<b>1,575,517</b>	<b>11,979</b>	<b>1,587,496</b>	<b>411,761</b>	<b>33,874</b>	<b>445,635</b>

<sup>10</sup> Ffigurau'r Gyllideb yw'r rhai yng Nghynnig Terfynol y Gyllideb a gymeradwywyd fis Rhagfyr 2011.

## 8. Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

---

### Newidiadau Cyffredinol i Gyllidebau

**8.1** Bu cynnydd net o £13,710k yn y DEL Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, gan gynnwys lleihad o £30k o ran adnoddau a chynnydd o £13,740k o ran cyfalaf.

### Newidiadau Adnoddau

**8.2** Cafwyd trosglwyddiadau i Brif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau ond nid yw hyn yn cynnwys unrhyw addasiadau dros £250k.

**8.3** Gwnaethpwyd sawl trosglwyddiad o fewn y Prif Grŵp Gwariant. Mae effaith net y trosglwyddiadau hyn yn niwtral. Mae hyn yn cynnwys y trosglwyddiad canlynol dros £250k:

- Trosglwyddiad o £735k o Gam Gweithredu 'Gweithredu Polisiâu Gwarchod Natur a'r Môr' i'r Cam Gweithredu 'Hyrwyddo Tirweddau Gwarchodedig a Mynediad i Gefn Gwlad' er mwyn ariannu newidiadau i'r ffordd y mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cael ei darparu a'i gweinyddu gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

### Newidiadau i Gyfalaf

**8.4** Trosglwyddwyd cyfanswm o £11,000k o Gronfeydd Wrth Gefn, gan gynnwys:

### Cam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi a Deddfwriaeth ynglŷn â'r Perygl o Lifogydd a'r Perygl i'r Arfordir; Dŵr a Charthion

- Trosglwyddo cyfanswm o £6,000k i mewn, gan gynnwys:
  - £2,000k o gyllid Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog i leihau'r risg i gartrefi a busnesau sy'n agored i niwed ym Mae Colwyn yn y Gogledd ac yn y Borth yn y Canolbarth; a

- £4,000k fel rhan o'r pecyn buddsoddiad cyfalaf a gyhoeddwyd ym mis Mai ar gyfer cynlluniau rheoli risg Llifogydd ac Arfordirol ym Mae Colwyn, Talgarth, Gilfach Kerry, a'r Borth.

Cam Gweithredu 'Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau Cyfathrebu,

Deddfwriaeth a Rheoliadau Newid Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd'

- Trosglwyddo cyfanswm o £5,000k fel rhan o'r pecyn buddsoddiad cyfalaf a gyhoeddwyd ym mis Mai, gan gynnwys:
  - £3,000k ar gyfer NEST, cynllun tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru; a
  - £2,000k ar gyfer y cynllun newydd a fydd yn gweithredu law yn llaw â'n cynllun effeithlonrwydd ynni, ARBED Cam 2.

**8.5** Trosglwyddwyd £2,740k i Gam Gweithredu 'Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau Cyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoliadau Newid Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd' o'r Prif Grŵp Gwariant Tai, Adfywio a Threftadaeth fel cyfaniad at yr arian cyfatebol ar gyfer ARBED Cam 2, Rhaglen Buddsoddi Strategol Perfformiad Ynni Llywodraeth Cymru. Mae'r trosglwyddiad yn cynnwys:

- £270k o'r Cam Gweithredu 'Sicrhau Tai o Ansawdd';
- £1,100k o'r Cam Gweithredu 'Cynyddu Nifer y Tai a'r Dewis Ohonynt'; a
- £1,370k o'r Cam Gweithredu 'Gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol'

**8.6** Trosglwyddwyd £1,000k o fewn y Prif Grŵp Gwariant, ac roedd yr effaith net yn niwtral. Gwnaed y trosglwyddiad o'r Cam Gweithredu 'Datblygu a Gweithredu Polisi a Deddfwriaeth ynglŷn â'r Perygl o Llifogydd a'r Perygl i'r Arfordir; Dŵr a Charthion' i'r Cam Gweithredu 'Noddi a Rheoli Cyrff Cyflawni' i gyllido datblygu Seilwaith Un Corff Amgylcheddol.

**Tabl 8.1 – Dyraniadau SPA yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**

DEL	£000oedd			£000oedd		
	Adnodd 2012-13			Cyfalaf 2012-13		
	Cyllideb <sup>11</sup>	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig	Cyllideb	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig
Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd	115,885	-30	115,855	57,196	12,740	69,936
Yr Amgylchedd	80,887	0	80,887	4,600	1,000	5,600
Cynllunio	7,403	0	7,403	0	0	0
Gwarchod a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid	39,454	0	39,454	0	0	0
Sail Tystiolaeth	354	0	354	38	0	38
Coedwigaeth	21,200	0	21,200	-205	0	-205
<b>Cyfanswm DEL</b>	<b>265,183</b>	<b>-30</b>	<b>265,153</b>	<b>61,629</b>	<b>13,740</b>	<b>75,369</b>
<b>Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)</b>	<b>265,183</b>	<b>-30</b>	<b>265,153</b>	<b>61,629</b>	<b>13,740</b>	<b>75,369</b>

<sup>11</sup> Ffigurau'r Gyllideb yw'r rhai yng Nghynnig Terfynol y Gyllideb a gymeradwywyd fis Rhagfyr 2011.



## 9. Tai, Adfywio a Threftadaeth

---

### Newidiadau Cyffredinol i Gyllidebau

**9.1** Cafwyd cynnydd net o £19,808k yn y DEL Tai, Adfywio a Threftadaeth, yn cynnwys cynnydd o £48k o ran adnodd a chynnydd o £19,760k o ran cyfalaf.

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol

**9.2** Bu lleihad o £7,000k yn y Gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf am ad-daliadau Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai i'r Trysorlys.

### Newidiadau i Adnoddau

**9.3** Bu trosglwyddiadau o'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw addasiadau dros £250k.

**9.4** Mae £300k wedi'i drosglwyddo o fewn y Prif Grŵp Gwariant, o'r Cam Gweithredu 'Meithrin Defnydd a Dysgu Gydol Oes drwy Wasanaethau Llyfrgell' i'r Cam Gweithredu 'Arweiniad Strategol ar gyfer Gwasanaethau Amgueddfa, Archifau a Llyfrgell' ar gyfer cyllido Casgliad y Bobl. Mae effaith net y trosglwyddiad hwn yn niwtral.

### Newidiadau i Gyfalaf

**9.5** Trosglwyddwyd cyfanswm o £22,500k o'r Cronfeydd Wrth Gefn, gan gynnwys:

### Cynyddu Nifer y Tai a'r Dewis Ohonynt

Trosglwyddo £16,000k i mewn, gan gynnwys:

- £5,000k o Gyfalaf a Gedwir yn Ganolog ar gyfer y fenter 'Troi Tai'n Gartrefi' i sicrhau er mwyn sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio.

- £11,000k fel rhan o'r pecyn buddsoddiad cyfalaf a gyhoeddwyd ym mis Mai, a oedd yn cynnwys:
  - o £6,000k ar gyfer Cam 2 Partneriaeth Tai Cymru; a
  - o £5,000k ar gyfer y fenter 'Troi Tai'n Gartrefi' er mwyn sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio.

### Cam Gweithredu 'Gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol'

- Trosglwyddo cyfanswm o £6,500k o Gyfalaf a Gedwir yn Ganolog, gan gynnwys:
  - £5,000k ar gyfer prosiect ailddatblygu tai Gorllewin y Rhyl.
  - £1,500k ar gyfer ailddatblygu Hen Neuadd y Dref Merthyr Tydfil

**9.6** Mae £2,740k wedi ei drosglwyddo i Gam Gweithredu 'Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau Cyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoliadau Newid Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd' ym Mhrif Grŵp Gwariant Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar gyfer ARBED Cam 2, Rhaglen Fuddsoddi Strategol Perfformiad Ynni Llywodraeth Cymru, o'r Camau Gweithredu canlynol:

- £270k o Gam Gweithredu 'Sicrhau Tai o Ansawdd'
- £1,100k o'r Cam Gweithredu 'Cynyddu Nifer y Tai a'r Dewis Ohonynt'; a
- £1,370k o'r Cam Gweithredu 'Gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol'

**9.7** Mae £1,000k wedi'i drosglwyddo o fewn y Prif Grŵp Gwariant, o Gam Gweithredu 'Meithrin Defnydd a Dysgu Gydol Oes drwy Wasanaethau Llyfrgell' i'r Cam Gweithredu 'Cynyddu Nifer y Tai a'r Dewis Ohonynt' i ddarparu tai newydd ychwanegol. Mae effaith net hyn yn niwtral.

**Tabl 9.1 – Dyraniadau SPA Tai, Adfywio a Threftadaeth**

DEL	£000oedd			£000oedd		
	Adnodd 2012-13			Cyfalaf 2012-13		
	Cyllideb <sup>12</sup>	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig	Cyllideb	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig
Tai	151,147	0	151,147	231,970	15,630	247,600
Adfywio	14,336	48	14,384	51,477	5,130	56,607
Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf drwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill	34,802	0	34,802	455	0	455
Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd	37,436	0	37,436	4,973	-1,000	3,973
Darparu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol	24,923	0	24,923	345	0	345
Y cyfryngau a chyhoeddi	3,980	0	3,980	25	0	25
Cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol	11,658	0	11,658	5,313	0	5,313
<b>Cyfanswm DEL</b>	<b>278,282</b>	<b>48</b>	<b>278,330</b>	<b>294,558</b>	<b>19,760</b>	<b>314,318</b>
<b>AME</b>						
Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd	2,490	0	2,490	0	0	0
Tai	-61,000	-7,000	-68,000	0	0	0
<b>Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)</b>	<b>219,772</b>	<b>-6,952</b>	<b>212,820</b>	<b>294,558</b>	<b>19,760</b>	<b>314,318</b>

<sup>12</sup> Ffigurau'r Gyllideb yw'r rhai yng Nghynnig Terfynol y Gyllideb a gymeradwywyd fis Rhagfyr 2011.

## 10. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

---

### Newidiadau Cyffredinol i Gyllidebau

**10.1** Bu cynnydd net o £12,964k yn y DEL Gwasanethau a Gweinyddiaeth Canolog. Adnoddau yw hyn i gyd.

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol

**10.2** Bu lleihad o £5k yn y Gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf ynghylch darparu ar gyfer ymddeoliadau cynnar.

### Newidiadau i Adnoddau

**10.3** Trosglwyddo £10,000k o'r Cronfeydd Wrth Gefn i'r Cam Gweithredu 'Budsoddi i Arbed' i ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau rownd chwech y cyhoeddwyd eu manylion ar 19 Mehefin.

**10.4** Trosglwyddo £1,926k o Gam Gweithredu 'Gwybodaeth Ddaearyddol' i'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth ddaearyddol i Gymru gyfan.

**10.5** Effaith net trosglwyddiadau gyda Phrif Grwpiau Gwariant eraill yw cynnydd o £4,890k, sy'n cynnwys yr addasiadau canlynol dros £250k:

#### Cam Gweithredu Costau Staff

- Trosglwyddo £1,273k o'r Cam Gweithredu 'Iaith Gymraeg' ym Mhrif Grŵp Gwariant yr Adran Addysg a Sgiliau i dalu cyflogau a chostau cysylltiedig staff a drosglwyddodd i Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2012 yn dilyn diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

#### Cam Gweithredu Tribiwnlysoedd

- Trosglwyddo £1,970k o Gam Gweithredu 'Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl' ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ar gyfer Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl.

### Cam Gweithredu Gwybodaeth Ddaearyddol

- £1,595k o Gam Gweithredu 'Gwybodaeth Ddaearyddol' ym Mhrif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau tuag at gyfraniad Llywodraeth Leol i'r Gwasanaethau Gwybodaeth Ddaearyddol i Gymru gyfan

### **Newidiadau i Gyfalaf**

**10.6** Ni fu newidiadau i'r Gyllideb Gyfalaf.

**Tabl 10.1 – Dyraniadau SPA Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu**

DEL	£000oedd			£000oedd		
	Adnodd 2012-13			Cyfalaf 2012-13		
	Cyllideb <sup>13</sup>	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig	Cyllideb	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig
Costau Rhedeg Dirprwyedig	204,340	1,273	205,613	0	0	0
Costau Rhedeg Canolog	91,377	52	91,429	11,145	0	11,145
Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth	11,377	11,639	23,016	0	0	0
Rhaglenni Canolog	14,361	0	14,361	17,319	0	17,319
<b>Cyfanswm DEL</b>	<b>321,455</b>	<b>12,964</b>	<b>334,419</b>	<b>28,464</b>	<b>0</b>	<b>28,464</b>
<b>AME</b>						
Costau Rhedeg Canolog	-1,837	-5	-1,842	0	0	0
<b>Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)</b>	<b>319,618</b>	<b>12,959</b>	<b>332,577</b>	<b>28,464</b>	<b>0</b>	<b>28,464</b>

<sup>13</sup> Ffigurau'r Gyllideb yw'r rhai yng Nghynnig Terfynol y Gyllideb a gymeradwywyd fis Rhagfyr 2011.

## Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllideb Bloc Cymru a'r Dyraniadau Adnoddau yng Nghynnig y Gyllideb

Mae'r ddogfen hon yn cefnogi Cynnig y Gyllideb Atodol, sy'n nodi'r newidiadau yn yr adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig eu defnyddio yn 2012-13, yn ogystal â'r arian parod y mae'n ceisio awdurdod i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r tablau yn yr adroddiad hwn yn dangos cyllidebau ar sail weinyddol, ond ffigurau ar sail adnoddau yw'r ffigurau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol.

Yng nghyllideb weinyddol Llywodraeth Cymru mae nifer o eitemau sydd wedi'u sgorio y tu allan i gyfrifon Llywodraeth Cymru. Nid ydynt felly'n cael eu sgorio fel rhan o'r Adnoddau sydd eu hangen ar Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiad hwn yn cysoni cyllidebau gweinyddol ac adnoddau pob Prif Grŵp Gwariant.

### Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant

DEL	£000oedd
	2012-13
Adnoddau	6,081,527
Cyfalaf	261,713
<b>AME</b>	
Adnoddau	201,710
Cyfalaf	0
<b>Cyfanswm y Gwariant a Reolir</b>	<b>6,544,950</b>
<b>Cysoni ag Adnoddau</b>	
Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau a chyrrff y GIG	-321,457
Benthyca â Chymorth	-4,174
Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol (a'r costau casglu)	-887,398
<b>Yr adnoddau y gwneir cais amdanynt</b>	<b>5,331,921</b>

### Llywodraeth Leol a Chymunedau

DEL	£000oedd
	2012-13
Adnoddau	4,826,288
Cyfalaf	269,351
<b>AME</b>	
Adnoddau	51,385
Cyfalaf	0
<b>Cyfanswm y Gwariant a Reolir</b>	<b>5,147,024</b>
<b>Cysoni ag Adnoddau</b>	
Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau a chyrrff y GIG	-400
Benthyca â Chymorth	-12,001
Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n daladwy (a'r costau casglu)	-949,172
Menter Cyllid Preifat (PFI)	-7,353
<b>Yr adnoddau y gwneir cais amdanynt</b>	<b>4,178,098</b>

### Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

DEL	£000oedd
	2012-13
Adnoddau	176,870
Cyfalaf	98,356
<b>AME</b>	
Adnoddau	41,402
Cyfalaf	0
<b>Cyfanswm y Gwariant a Reolir</b>	<b>316,628</b>
<b>Cysoni ag Adnoddau</b>	
Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru Cyllid Cymru	-1,695
<b>Yr adnoddau y gwneir cais amdanynt</b>	<b>314,933</b>

### Addysg a Sgiliau

DEL	£000oedd
	2012-13
Adnoddau	1,676,529
Cyfalaf	178,293
<b>AME</b>	
Adnoddau	-89,033
Cyfalaf	267,342
<b>Cyfanswm y Gwariant a Reolir</b>	<b>2,033,131</b>
<b>Cysoni ag Adnoddau</b>	
Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau a chyrrff y GIG	-82
Benthyca â Chymorth	-39,038
<b>Yr adnoddau y gwneir cais amdanynt</b>	<b>1,994,011</b>

### Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

DEL	£000oedd
	2012-13
Adnoddau	265,133
Cyfalaf	75,369
<b>AME</b>	
Adnoddau	0
Cyfalaf	0
<b>Cyfanswm y Gwariant a Reolir</b>	<b>340,522</b>
<b>Cysoni ag Adnoddau</b>	
Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau a chyrrff y GIG	-3,090
Benthyca â Chymorth	-10,341
<b>Yr adnoddau y gwneir cais amdanynt</b>	<b>327,091</b>



### Tai, Adfywio a Threftadaeth

DEL	£000oedd
	2012-13
Adnoddau	278,330
Cyfalaf	314,318
<b>AME</b>	
Adnoddau	-65,510
Cyfalaf	0
<b>Cyfanswm y Gwariant a Reolir</b>	<b>527,138</b>
<b>Cysoni ag Adnoddau</b>	
Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau a chyrrff y GIG	-5,758
Benthyca â Chymorth	-41,745
<b>Yr adnoddau y gwneir cais amdanynt</b>	<b>479,635</b>

### Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

DEL	£000oedd
	2012-13
Adnoddau	334,419
Cyfalaf	28,464
<b>AME</b>	
Adnoddau	1,842
Cyfalaf	0
<b>Cyfanswm y Gwariant a Reolir</b>	<b>361,041</b>
<b>Cysoni ag Adnoddau</b>	
Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	-97
<b>Yr adnoddau y gwneir cais amdanynt</b>	<b>360,944</b>

## Atodiad 2 – Cysoni Strwythurau'r Gyllideb Drafnidiaeth o fewn MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau

SPA	Y GYLLIDEB ADNODDAU – Terfyn Gwariant Adrannol	£000oedd			Sylwadau
		2012-13 Ailnodi Gwaelodlin	2013-14 Ailnodi Gwaelodlin	2014-15 Ailnodi Gwaelodlin	
Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd	CAM GWEITHREDU				
	Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd	60,260	65,521	64,883	1. Aiddyrannwyd £20,612k yn 2012/13; £20,706k yn 2013/14 a 2014/15 o Gam Gweithredu Gwella a Chynnal a Chadw'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd (Ffyrdd Domestig). 2. Aiddyrannwyd £38,327k yn 2012/13; £38,304k yn 2013/14 a 2014/15 o Gam Gweithredu Gwella Cysylltedd Rhyngwladol. 3. Aiddyrannwyd £1,042k yn 2012/13; £6,233k yn 2013/14 a £5,591k yn 2014/15 o Gam Gweithredu Datblygu Teithio Cynaliadwy. 4. Aiddyrannwyd £279k yn 2012/13; £278k yn 2013/14 a £282k yn 2014/15 o Gam Gweithredu Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd
Tudalen 4	Gwella a Chynnal a Chadw'r Rhwydwaith Cefnffyrdd (Ffyrdd Domestig) - Adnoddau nad ydynt yn Arian Parod	108,691	108,691	108,691	1. Aiddyrannwyd £34,781k yn 2012/13, 2013/14 a 2014/15 o Gam Gweithredu Gwella a Chynnal a Chadw'r Rhwydwaith Cefnffyrdd (Ffyrdd Domestig) – Cam gweithredu nad yw'n Arian Parod. 2. Aiddyrannwyd £73,910k yn 2012/13, 2013/14 a 2014/15 o Gam Gweithredu Gwella Cysylltedd Rhyngwladol nad yw'n Arian Parod.
	Cyfanswm Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd	168,951	174,212	173,574	
Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr	Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr	173,971	173,179	173,179	1. Aiddyrannwyd £172,371k yn 2012/13; £171,579k yn 2013/14 a 2014/15 o Gam Gweithredu Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus (Rheilffyrdd). 2. Aiddyrannwyd £1,600k ymhob un o'r 3 blwyddyn ariannol o Gam Gweithredu Gwella Cysylltedd Rhyngwladol.
	Cyfanswm Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr	173,971	173,179	173,179	
Teithio Cynaliadwy	Teithio Cynaliadwy	84,091	82,762	84,105	1. Aiddyrannwyd £84,091k yn 2012/13; £82,762k yn 2013/14 a £84,105k yn 2014/15 o Gam Gweithredu Datblygu Teithio Cynaliadwy.
	Cyfanswm Teithio Cynaliadwy	84,091	82,762	84,105	
Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd	Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd	5,716	4,717	4,713	Aiddyrannwyd £5,716k yn 2012/13; £4,717k yn 2013/14 a £4,713k yn 2014/15 o Gam Gweithredu Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd.
	Cyfanswm Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd	5,716	4,717	4,713	
	Cyfanswm Refeniw – Llywodraeth Leol a Chymunedau	432,729	434,870	435,571	

Y GYLLIDEB GYFALAF – Terfyn Gwariant Adrannol		£000oedd		
SPA	CAM GWEITHREDU	2012-13 Ailnodi Gwaelodlin	2013-14 Ailnodi Gwaelodlin	2014-15 Ailnodi Gwaelodlin
Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffydd a Chefnffyrdd	Gweithrediadau Rhwydwaith Traffydd a Chefnffyrdd	46,366	38,151	43,204
	<b>Cyfanswm Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffydd a Chefnffyrdd</b>	<b>46,366</b>	<b>38,151</b>	<b>43,204</b>
Buddsoddi yn y Ffyrdd a'r Rheilffyrdd	Cynlluniau'r Ffyrdd a'r Rheilffyrdd	92,794	93,991	91,046
	<b>Cyfanswm Buddsoddi yn y Ffyrdd a'r Rheilffyrdd</b>	<b>92,794</b>	<b>93,991</b>	<b>91,046</b>
Teithio Cynaliadwy	Teithio Cynaliadwy	43,826	41,640	39,532
	<b>Cyfanswm Teithio Cynaliadwy</b>	<b>43,826</b>	<b>41,640</b>	<b>39,532</b>
Gwella a Chynnal a Chadw Seilwaith Ffyrdd Lleol	Gwella a Chynnal a Chadw Seilwaith Ffyrdd Lleol	12,805	0	0
	Cyllid Cyfalaf Cyffredinol - Ffyrdd	15,332	13,667	13,667
	<b>Cyfanswm Gwella a Chynnal a Chadw Seilwaith Ffyrdd Lleol</b>	<b>28,137</b>	<b>13,667</b>	<b>13,667</b>
Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd	Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd	6,900	6,900	6,900
	<b>Cyfanswm Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd</b>	<b>6,900</b>	<b>6,900</b>	<b>6,900</b>
	<b>Cyfanswm Cyfalaf – Llywodraeth Leol a Chymunedau</b>	<b>218,023</b>	<b>194,349</b>	<b>194,349</b>
	<b>Sylwadau</b>			
	1. Ailddyranwyd £21,072k yn 2012/13; £21,119k yn 2013/14 a £23,227k yn 2014/15 o'r Cam Gweithredu Gwella a Chynnal a Chadw'r Rhwydwaith Cefnffyrdd (Ffyrdd Domestig).			
	2. Ailddyranwyd £19,989k yn 2012/13; £15,949k yn 2013/14 a £18,894k yn 2014/15 o Gam Gweithredu Gwella Cysylltiedd Rhyngwladol.			
	3. Ailddyranwyd £4,222k yn 2012/13 o Gam Gweithredu Gwella Seilwaith Ffyrdd Lleol.			
	4. Ailddyranwyd £1,083k ymhob un o'r tair blwyddyn ariannol i Gam Gweithredu Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd.			
	1. Ailddyranwyd £12,954k yn 2012/13 i Gam Gweithredu Gwella a Chynnal a Chadw'r Rhwydwaith Cefnffyrdd (Ffyrdd Domestig).			
	2. Ail-ddyrannwyd £47,142k yn 2012/13; £27,426k yn 2013/14 a 2014/15 o Gam Gweithredu Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus (Rheilffyrdd).			
	3. Ailddyranwyd £32,698k yn 2012/13; £66,565k yn 2013/14 a £63,620k yn 2014/15 o Gam Gweithredu Gwella Cysylltiedd Rhyngwladol.			
	1. Ailddyranwyd £29,171k yn 2012/13; £27,257k yn 2013/14 a 2014/15 o Gam Gweithredu Datblygu Trafnidiaeth Gynaliadwy.			
	2. Ailddyranwyd £11,071k yn 2012/13; £8,312k yn 2013/14 a 2014/15 o Gam Gweithredu Gwella a Chynnal a Chadw Seilwaith Ffyrdd Lleol.			
	3. Ailddyranwyd £3,584k yn 2012/13; £6,071k yn 2013/14 a £3,963k yn 2014/15 o Gam Gweithredu Gwella a Chynnal a Chadw'r Rhwydwaith Cefnffyrdd (Ffyrdd Domestig).			
	Ailddyranwyd £12,805k yn 2012/13 yn unig o Gam Gweithredu Gwella a Chynnal a Chadw Seilwaith Ffyrdd Lleol.			
	Ailddyranwyd £15,332k yn 2012/13; £13,667k yn 2013/14 a £13,667k yn 2014/15 o Faes Rhaglen Wariant Gwella Trafnidiaeth Integredig (Lleol).			
	Ailddyranwyd £6,900k ymhob un o'r tair blwyddyn ariannol o Gam Gweithredu Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd.			

## Atodiad 3 – Dyraniadau Rheolaidd o'r Cronfeydd wrth Gefn

Prif Grŵp Gwariant	Cam gweithredu	Adnodd/ Cyfalaf	Disgrifiad	£000oedd		
				2012-13	2013-14	2014-15
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Cam Cyflenwi'r GIG	Cyfalaf	Prosiect CRC Cam 2 – Datblygu Gwasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd	5,900	2,000	0
	Gwella a Chynnal a Chadw'r Rhwydwaith Cefnfyrrdd (Ffyrdd Domestig)	Cyfalaf	Prosiect CRC Cam 1- Gwella'r A470 Maes yr Helmau i Cross Foxes	1,900	1,900	0
Llywodraeth Leol a Chymunedau	Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnfyrrdd	Cyfalaf	Prosiect CRC Cam 1 – A470 Gelligemlyn	2,000	2,000	0
			Prosiect CRC – System Data Traffig Cenedlaethol	4,000	3,000	0
	Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnfyrrdd	Cyfalaf	Prosiect CRC Cam 2 – M4 J32: Cynllun Gwella Coryton	400	1,700	0
			Prosiect CRC Cam 2 – Cydnerthu Cynhallaeth y Gaef Cenedlaethol Cymru: Storio Halen Ffyrdd yn Strategol	1,900	700	0
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	Cam Gweithredu - Diwallu Anghenion Cymunedau Gwledig a Bodloni'r Prawf Gwledig o Ran Camau LIC	Adnoddau	O DEFRA (Llywodraeth y DU) – System Trwyddedu Symud Anifeiliaid	1,000	800	600
	Gwireddu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig	Cyfalaf	Prosiect CRC Cam 1 – Taliadau Gwledig Ar- lein	2,900	2,700	0
Addysg a Sgiliau	Yr Ystad a'r Ddarpariaeth TG	Cyfalaf	Prosiect CRC Cam 2 – Pen-y-bont ar Ogwr – Porth y Cymoedd	1,950	2,100	0
			Prosiect CRC Cam 2 – Partneriaeth Ddysgu 14-19 Dinefwr: Caerfyrddin	7,000	7,000	0
Tai, Adfywio a Threftadaeth	Gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol	Cyfalaf	Prosiect CRC Cam 1 – Hen Neuadd y Dref Merthyr Tudful	1,500	1,500	0
			Prosiect CRC Cam 2 – Prosiect Tai Gorllewin y Rhyl	5,000	5,000	0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	Gwybodaeth Ddaearyddol Buddsoddi i Arbed	Adnoddau	Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (Llywodraeth y DU): Mapio Digidol Llywodraeth Gyfan	-1,926	-1,786	-1,662
		Adnoddau	Buddsoddi i Arbed	10,000	2,000	8,000

## Atodiad 4 – Geirfa

---

<b>Adnoddau</b> (‘refeniw’ gynt)	Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul.
<b>Adolygiad o Wariant</b>	Bob dwy neu dair blynedd mae Trysorlys EM yn adolygu gwariant pob adran yn Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y tair blynedd i ddod. Mae'r cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy fformiwla Barnett.
<b>Cam Gweithredu</b>	O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu. Mae tablau sy'n dangos y cyllidebau ar lefel y Camau Gweithredu ar gael yn:  <a href="http://cymru.gov.uk/cyllideb">http://cymru.gov.uk/cyllideb</a>
<b>CNLC</b>	Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru
<b>Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru</b>	Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y Costau Uniongyrchol mae cyflog y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.
<b>Cronfa Gyfunol Cymru</b>	Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU.
<b>Cwmpasoedd gwariant</b>	Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae Disgrifiadau o'r Cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Mhegiau.
<b>Cyfalaf</b>	Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau DEL a Gwariant a Reolir yn Flynyddol Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf a refeniw.

<b>Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)</b>	Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol yn ogystal â'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol.
<b>Cyllidebu adnoddau</b>	Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.
<b>Cynnig y Gyllideb</b>	Y dull a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.
<b>DEL Adnoddau Anghyllidol</b> (‘adnoddau nad ydynt yn arian parod’ gynt)	Mesurau croniadau a gynhwysir mewn cyllidebau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau er nad oes cysylltiad uniongyrchol â ffrydiau arian parod yn y cyfnod dan sylw – er enghraifft, dibrisiant a darpariaethau. Ni ellir defnyddio'r DEL adnoddau anghyllidol i ariannu gwariant DEL adnoddau cyllidol.
<b>DEL Adnoddau Cyllidol</b> (‘adnoddau sydd bron yn arian parod’ gynt)	Mesurau croniadau sydd fel rheol yn troi'n ffrwd arian parod yn fuan, er enghraifft cyflog, caffael cyfredol, grantiau refeniw a chymorthdaliadau.
<b>Derbyniadau</b>	Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.
<b>Dibrisiant</b>	Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o DEL Llywodraeth Cymru ond mae'n eitem DEL adnoddau anghyllidol.

<b>Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)</b>	Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, aml-flwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys EM. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr ac yn ymateb i'r galw, er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr.
<b>Maes Rhaglen Wariant (SPA)</b>	O fewn pob MEG, caiff cyllidebau eu dyrannu i Feysydd Rhaglenni Gwariant yn ôl y math o wasanaethau y byddant yn eu darparu.
<b>Prif Grŵp Gwariant (MEG)</b>	Caiff DEL Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ar hyn o bryd mae 7 ohonynt: Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant; Llywodraeth Leol a Chymunedau; Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth; Addysg a Sgiliau; Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy; Tai, Adfywio a Threftadaeth; a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.
<b>System Cyfnewid Cyllidebau</b>	Y system sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i ddwyn ymlaen danwariannau, hyd at gap y cytunwyd arno. Y cap y cytunwyd arno yw 0.6% o'n cyllideb DEL Adnoddau ac 1.5% o'n cyllideb DEL Cyfalaf.
<b>Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)</b>	Terfyn y gyllideb aml-flwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys EM. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail tair blynedd mewn Adolygiadau o Wariant.

---

# **Cynnig y Gyllideb Atodol 2012-13**

---

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd  
y Tŷ*

*Mehefin 2012*



## Cynnig y Gyllideb Atodol

### Gofynnir i'r Cynulliad gytuno ar y canlynol

“1. Gwneir y penderfyniad hwn ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2013 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) yn unol ag Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

#### Llywodraeth Cynulliad Cymru

2. Awdurdodir Llywodraeth Cynulliad Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronuss) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2013 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 yr Atodlen honno;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronuss a nodir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2013, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o bob Rhan o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn Atodlen 1, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

3. Er gwaethaf paragraffau 2(a) a (b), caiff yr adnoddau y gellir eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, yng Ngholofn 2 o bob Rhan o Atodlen 2), fod yn uwch na'r swm a bennir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, ym mhob rhan o Atodlen 2)-

(a) os bodlonir yr amod cyntaf, yn achos adnoddau heb gynnwys adnoddau cronuss, neu

(b) os bodlonir yr ail amod, yn achos adnoddau cronuss.

4. Yr amod cyntaf yw nad yw cyfanswm yr adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronuss) a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2013 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno.

5. Yr ail amod yw nad yw cyfanswm yr adnoddau cronuss a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2013 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 2 o Atodlen 2 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir ar gyfer pob rhan o'r Atodlen honno.

Comisiwn y Cynulliad

6. Awdurdodir Comisiwn y Cynulliad -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronrus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2013 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Rannau 1 a 2 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Rannau 1 a 2 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronrus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2013, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 1 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 a 2 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

7. Awdurdodir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronrus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2013 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 3 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronrus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2013, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 2 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 2 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Archwilydd Cyffredinol Cymru

8. Awdurdodir Archwilydd Cyffredinol Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronrus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2013 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 4 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 4 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronrus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2013, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn

---

y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 3 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 3 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 4 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Manyleb y Categoriâu o Adnoddau Cronnus

9. Mae'r categorïau o adnoddau cronnus a restrir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, ac yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 4, yn gategoriâu penodedig at ddibenion Adran 120(2)(a) o'r Ddeddf.”

**Crynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf**

***Gweinidogion Cymru***

<b>Cwmpas</b>	<b>Adnoddau (£000)</b>	<b>Adnoddau Cronnus (£000)</b>
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	5,331,921	917,106
Llywodraeth Leol a Chymunedau	4,178,098	2,000
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	314,933	602,949
Addysg a Sgiliau	1,994,011	88,497
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	327,091	7,835
Tai, Adfywio a Threftadaeth	479,635	74,330
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	360,944	8,500
<b>Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru</b>	<b>12,986,633</b>	<b>1,701,217</b>

*Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol*

<b>Cwmpas</b>	<b>Adnoddau (£000)</b>	<b>Adnoddau Cronnus (£000)</b>
Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru	47,477	250
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	3,853	6
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,740	7,271
<b>Cyfanswm yr Adnoddau a'r Incwm Cronnus ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol</b>	<b>56,070</b>	<b>7,527</b>

**Atodlen 1 – Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru**

<b>Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronuss)</b>	
<b><i>Colofn 1</i></b>	<b><i>Colofn 2</i></b>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p><b>Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant</b></p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant gan gynnwys hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Cyllid refeniw a chyfalaf i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig; Cyfalaf Difidend Cyhoeddus i Ymddiriedolaethau'r GIG; benthyciadau i Ymddiriedolaethau'r GIG; taliadau am wasanaethau o dan gontract gan gynnwys gwasanaethau deintyddol, offthalmig a fferyllol; gwasanaethau meddygol cyffredinol; cymorth ar gyfer addysg a hyfforddiant; ymchwil a datblygu; gwasanaethau iechyd meddwl; triniaeth ar gyfer clefydau cronig; a mesurau i fynd i'r afael ag Anghydraddoldebau Iechyd; cyllid i gefnogi plant a'u teuluoedd, gan gynnwys cyllid ar gyfer Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Comisiynydd Plant Cymru, strategaethau tlodi plant, gofal plant, chwarae, hawliau plant a phobl ifanc, sefydliadau plant a theuluoedd ac eiriolaeth, cefnogi awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol ar gyfer mesurau gofal plant, cefnogi ysgolion bro.</p> <p>Grantiau i gyflenwi'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a Chymorth i'r Asiantaeth Safonau Bwyd; cymorth i wasanaethau ar gyfer pobl hŷn ac i wasanaethau cymdeithasol a gofalwyr; gwella gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys ariannu Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru a'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE); i Gyngor Gofal Cymru; y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE); y Comisiynydd Pobl Hŷn; a chyfraniadau i gyrff iechyd a gofal cymdeithasol y DU.</p> <p>Cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru; cyllid ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a'r Adran Iechyd neu ar eu rhan; gwasanaethau ar gyfer gwella iechyd ac ar gyfer atal salwch, gwneud diagnosis ohono a'i drin; ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau nad ydynt yn arian parod.</p>	<p><b>5,331,921</b></p>

<b>Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)</b>	
<b><i>Colofn 1</i></b>	<b><i>Colofn 2</i></b>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p><b>Llywodraeth Leol a Chymunedau</b></p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ym meysydd llywodraeth leol a chyflenwi gwasanaeth cyhoeddus, adfywio a datblygu cymunedau, hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a diogelwch cymunedol; a datblygu a chynnal trafnidiaeth a seilwaith. Ariannu awdurdodau unedol llywodraeth leol; awdurdodau'r heddlu ac awdurdodau'r gwasanaeth tân ac achub, drwy gyllid grant heb ei neilltuo drwy gyfrwng grant cynnal refeniw, ardrethi annomestig cenedlaethol (NNDR) a chyllid cyfalaf cyffredinol neu ddull ar wahân o ddarparu refeniw a chyllid grant cyfalaf at ddiben polisi penodedig sy'n berthnasol i'r meysydd uchod o weithgarwch. Cyllido a noddi cyrff cyhoeddus a sefydliadau anstatudol sydd â swyddogaethau'n ymwneud ag archwilio, rheoleiddio ac arolygu; hyrwyddo a chynrychiolaeth; datblygu perfformiad a rheoli newid; hybu a chynnal safonau ac atebolrwydd (gan gynnwys swyddogaethau llys apêl) mewn perthynas â llywodraeth leol. Cyllid ar gyfer rhaglen, staffio a chostau gweinyddol cyffredinol (gan gynnwys costau prydlesu) yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, noddi Estyn gan gynnwys costau staff a gwariant gweinyddol cyffredinol ynghyd â chost cyfalaf a dibrisiant ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnyddo adnoddau nad ydynt yn arian parod. Ariannu cyrff cyhoeddus (gan gynnwys Partneriaethau Diogelwch Cymunedol), sefydliadau Trydydd Sector a sefydliadau eraill i gefnogi'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf; diogelwch a datblygiad cymunedol; datblygu mudiadau gwirfoddol a gwirfoddoli; cynhwysiant ariannol; swyddfeydd post; gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol; gwaith i gefnogi'r lluoedd arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd; gwrthsefyll camddefnyddio sylweddau a thrais domestig; a hybu Cyfiawnder Ieuenctid. Cyllid refeniw a chyfalaf ar gyfer trafnidiaeth ffyrdd, gan gynnwys adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a gwella cefnffyrdd yng Nghymru; darparu gwasanaethau teithio ar y rheilffyrdd a theithio awyr; diogelwch ar y ffyrdd; rheoleiddio croesfannau i gerddwyr a pharcio ar y stryd; ariannu a gweinyddu rhaglenni i awdurdodau lleol a chyrff eraill er mwyn darparu ystod o gynlluniau a gwasanaethau trafnidiaeth gan gynnwys tocynnau teithio rhad; cymorth i hyrwyddo a datblygu cerdded a beicio; a gwariant cysylltiedig, a defnyddo adnoddau nad ydynt yn arian parod. Arian cyfatebol o dan Flaenoriaeth 4 o Gronfa Gymdeithasol Ewrop; cymorth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio; a chyllid i dalu am gostau Gwasanaethau Cyfreithwyr y Trysorlys.</p>	<p><b>4,178,098</b></p>

<b>Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)</b>	
<b><i>Colofn 1</i></b>	<b><i>Colofn 2</i></b>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p><b>Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth</b></p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Fusnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth gan gynnwys hybu lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Ar gyfer darparu arian i helpu sefydlu, twf, datblygiad a chynaliadwyedd busnes a thwristiaeth yng Nghymru ac unrhyw wariant cysylltiedig arall a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod sy'n rhoi budd economaidd ehangach i Gymru.</p> <p>Gweinyddu a chyflenwi prosiectau a ariennir gan gronfeydd strwythurol yr UE, gwariant yn ymwneud ag Amaethyddiaeth, Datblygu Gwledig, Pysgodfeydd, Orlhain Bwyd ac Anifeiliaid, Coetiroedd a'r amgylchedd morol; ac unrhyw wariant cysylltiedig nad yw'n adnoddau arian parod.</p> <p>Ad-daliadau cyfalaf i'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol</p>	<p><b>314,933</b></p>



<b>Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)</b>	
<b><i>Colofn 1</i></b>	<b><i>Colofn 2</i></b>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p><b>Addysg a Sgiliau</b></p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Addysg a Sgiliau er mwyn ariannu: y Cyfnod Sylfaen, safonau maeth mewn ysgolion; datblygu a rheoleiddio'r cwricwlwm a chymwysterau; gwella perfformiad ysgolion; ariannu arolygiadau; cwnsela mewn ysgolion; trechu dadrithiad; effeithiolrwydd ysgolion; grant amddifadedd disgyblion; arian cyfalaf a refeniw ar gyfer datblygu TG at ddibenion dysgu; cymorth i wella safonau; cefnogi Techniquet; y grant gwisg ysgol; gweithgareddau llywodraethwyr ysgolion; cyfalaf i gefnogi'r seilwaith ysgolion a'r seilwaith ôl-16; cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol; hyfforddi, datblygu a chefnogi athrawon; dysgu dwyieithog; arian cyfalaf a refeniw ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; cefnogi addysg feddygol i israddedigion; cefnogi uno a chydweithredu yn y sector addysg; darpariaeth refeniw ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 gan gynnwys addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith; ymestyn hawliau a llwybrau dysgu 14-19; cefnogi'r Gwasanaeth Ieuencid; cyllid i ddysgwyr a myfyrwyr gan gynnwys costau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr a'r Lwfansau Cynhaliaeth Addysg; gwasanaethau cyngor ar yrfaoedd; gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd; cefnogi mentrau addysg rhyngwladol; ymchwil a gwerthuso addysgol; datblygu sgiliau a dysgu yn y gweithle; dysgu ar gyfer troseddwyr; cymorth i Gomisiynydd y Gymraeg, prosiectau sy'n hybu'r Gymraeg; hybu addysg a sgiliau; eitemau cysylltiedig nad ydynt yn arian parod ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau nad ydynt yn arian parod.</p>	<p><b>1,994,011</b></p>

<b>Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronus)</b>	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p><b>Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy</b>                      I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy gan gynnwys hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; datblygu cynigion ar gyfer un corff amgylcheddol yng Nghymru; rhoi cyllid, cyngor a chymorth gweinyddol i awdurdodau lleol, asiantaethau a chyrff eraill er mwyn hybu, hwyluso a darparu ystod o gynlluniau a gwasanaethau mewn perthynas â'r Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy; hwyluso, hybu a chyflawni ym meysydd cynaliadwyedd, y newid yn yr hinsawdd ac ansawdd yr amgylchedd; cynorthwyo a hybu cynhyrchu ynni drwy ddulliau carbon isel; effeithlonrwydd ynni, rheoli adnoddau dŵr mewn modd cynaliadwy a gwella ansawdd dŵr; darparu ac ariannu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth, atal llifogydd ac amddiffyn yr arfordir a mesurau rheoli risg; darparu cyllid, cymorth a chyngor sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, tloedi tanwydd, rheoli dŵr a rheoli risgiau llifogydd ac erydu arfordirol; darparu cyllid, cymorth a chyngor sy'n ymwneud â gwastraff a chynaliadwyedd gan gynnwys yr Ardoll Agregau; gwaredu, casglu a rheoli gwastraff, cynlluniau ailgylchu, glanhau strydoedd a chredydau treth tirlenwi; rheoli ymbelydredd, llygredd amgylcheddol, ansawdd yr amgylchedd a llygredd sŵn; hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol busnesau, pobl a lleoedd Cymru. Cynllunio, gan gynnwys gwaith achos ar apelau, cyhoeddi dogfennau cynllunio, a chyllid ar gyfer ymchwil; trosi a gweithredu deddfwriaeth a rhwymedigaethau'r DU, deddfwriaeth a rhwymedigaethau Ewropeaidd a rhyngwladol; gweinyddu a chyflawni prosiectau a ariennir o dan gronfeydd strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd; darparu cymorth grant, cynnal ymchwiliadau, ymchwil a gwerthuso; gwaith hybu a chyhoeddusrwydd a gwasanaethau mewn cysylltiad â'r Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau nad ydynt yn arian parod; hybu lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; cadwraeth; iechyd anifeiliaid a phlanhigion; hadau, plaladdwyr a chnydau GM; iechyd y cyhoedd; iawndal ar gyfer da byw; gweithgarwch ar les anifeiliaid; gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau arbenigol; gweithgarwch i gadw golwg ar glefydau; datblygu technoleg gwybodaeth; arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni Ewropeaidd; ariannu pwyllgorau ac ymchwiliadau i faterion gwledig ac amgylcheddol; cyhoeddusrwydd; cymorth ar gyfer rheoli tir a mesurau coedwigaeth; gan gynnwys gwariant o dan y Cynllun Datblygu Gwledig; grantiau coetir a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd; gwariant cyfalaf a refeniw gan y Comisiwn Coedwigaeth; ymchwilio i bolisiâu materion gwledig a'u gwerthuso a datblygu'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail iddynt; mesurau i liniaru allyriadau nwyon tŷ gwydr o sector diwydiannau'r tir; ac unrhyw wariant cysylltiedig neu fân gostau gan gynnwys unrhyw wariant cyfreithiol a defnydd o adnoddau nad ydynt yn arian parod.</p>	<p><b>327,091</b></p>

<b>Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronuss)</b>	
<b>Colofn 1</b>	<b>Colofn 2</b>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
